# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, G.O. Jones, Margaret Roberts.<br><br>Aelodau Lleyg: Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (SN) (ar gyfer eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Dylan Rees, Alun Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Mr Alan Hughes (Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad – Swyddfa Archwilio Cymru), Mr Ian Howse (Swyddog Arweiniol Ymgysylltu, Archwilio Ariannol – Deloitte), Uwch Archwilydd (NW), Uwch Archwilydd (JR) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Nid oedd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 12 Chwefror, 2019 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi ohonynt –

- Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg, mewn perthynas â'r ddyled arian cinio ysgol, ei bod wedi cysylltu â Chyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Rhondda Cynon Taf [fel y cynghorau sydd â rhai o'r dyledion isaf yng nghyswllt arian cinio ysgol o blith y cynghorau hynny a oedd wedi ymateb i arolwg y BBC ar ddyledion cinio ysgol yng Nghynghorau Cymru yn 2017/18] er mwyn dod i ddeall mwy am eu harferion ar gyfer cadw'r ddyled i lawr. Dywedodd y Swyddog ei bod wedi gallu sefydlu bod cyfanswm dyledion Cyngor Dinas Caerdydd mewn perthynas ag arian cinio ysgol yn uwch mewn gwirionedd na'r ffigwr a gyhoeddwyd yn erthygl y BBC ac nad oedd cynnwys yr holl ddyled ddi-arian. Roedd Rhondda Cynon Taf wedi darparu ei brotocol ar gyfer delio â dyledion cinio ysgol, ac anfonwyd y protocol ymlaen at y Rheolwr Prosiect yn y Gwasanaeth Dysgu sy'n adolygu'r system talu am brydau ysgol mewn ysgolion.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, ar ôl casglu'r data ar ddiwedd tymor y Pasg, y gallai bellach adrodd ar sefyllfa dyledion Cyngor Môn mewn perthynas ag arian cinio ysgol. Mae cyfanswm o £48,084 yn ddyledus i'r Cyngor mewn arian cinio ysgol, ac o'r ffigwr hwnnw mae £38,046 ar gofrestri'r ysgolion sy'n golygu bod yr ysgolion dal wrthi'n delio â'r dyledion hynny. Y balans cyfartalog fesul ysgol yw £906 a'r balans uchaf yw £6,978. Mae cyfanswm o 89 anfoneb sydd werth £10,037 yn dal i fod heb eu talu – dyma lle mae'r ddyled wedi cael ei throsglwyddo o'r ysgolion i Dîm Incwm y Cyngor i'w hadfer. Y balans cyfartalog yw £113 a'r balans uchaf yw £410. O ran sefyllfa gymharol Ynys Môn, nid yw'n annhebyg i sefyllfa'r awdurdodau a restrwyd yn arolwg y BBC. Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn edrych ar y polisi arian cinio ysgol a sut mae delio â dyledion gwasanaethau cymdeithasol ar y cyd â'r ysgolion a'r Gwasanaeth Cyllid. Un ffactor sy'n dylanwadu ar hyn oll yw cyflwyniad y Credyd Cynhwysol. O dan yr hen system budd-daliadau, byddai ceisiadau am brydau ysgol am ddim wedi cael eu penderfynu'n gyflym, ond nawr nid oes penderfyniad ar gais teuluoedd am brydau ysgol am ddim hyd nes bod eu cais am Gredyd Cynhwysol yn cael ei gadarnhau, a gall hynny gymryd sawl wythnos. Mae'r Awdurdod yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ddelio gyda'r plant hynny sydd yn y cyfnod o aros am benderfyniad ar eu cais Credyd Cynhwysol, hynny yw a ddylid codi tâl neu beidio am brydau ysgol yn ystod y cyfnod hwn, a sgil-effeithiau codi a pheidio codi tâl. Bydd hyn ynghyd â materion eraill yn ffurfio rhan o'r adolygiad polisi.

Gan fod Ynys Môn yn awdurdod cymharol fach o ran maint, holodd y Pwyllgor a yw'n dderbyniol bod gennym werth tua £50k o ddyled cinio ysgol. Ceisiodd y Pwyllgor sefydlu hefyd a oedd modd asesu effaith Credyd Cynhwysol ar lefelau dyledion cinio ysgol yn yr awdurdodau hynny lle mae'r budd-dal newydd wedi dod i rym o gymharu ag Ynys Môn.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, er ei bod yn bwysig casglu unrhyw arian sy'n ddyledus a chadw dyledion cyn ised â phosib, yng nghyd-destun yr incwm a gesglir o'r 3,000 i 4,000 o brydau ysgol a ddarperir bob dydd ar gost o £2.50 fesul pryd (gan ddiystyru'r oddeutu 1,500 sy'n gymwys i gael prydau am ddim a'r rheini sy'n dod â'u cinio eu hunain i'r ysgol), ac o gymharu â dyledion eraill sy'n ddyledus i'r Cyngor, nid yw £48k yn swm enfawr. Mae'n rhaid dod i farn ynglŷn â gwerth adfer dyled gan bwyso a mesur y swm sy'n ddyledus yn derbyn y gost o'i hadfer, ac weithiau deuir i'r casgliad ei bod yn aneconomaidd ceisio adfer dyled, yn enwedig yn achos dyledion llai. Hefyd, mae'r teuluoedd sy'n ei chael yn anodd talu am brydau ysgol yn deuluoedd ar incwm isel sydd fymryn uwchben y trothwy budd-dal, ac efallai fod ganddynt fwy nag un ddyled i'r Cyngor. Gall fod yn anodd adfer dyledion yn yr amgylchiadau hyn. Felly, o ystyried yr holl ffactorau sy'n cyfrannu, nid yw lefel y ddyled cinio ysgol yn afresymol.

O ran effaith Credyd Cynhwysol ar lefel y ddyled, mae Credyd Cynhwysol yn cyfuno budd-daliadau mewn gwaith a budd-daliadau nid-mewn-gwaith sy'n golygu bod rhai teuluoedd bellach yn gymwys am brydau ysgol am ddim o dan Gredyd Cynhwysol, lle nad oeddent efallai'n gymwys o dan yr hen system lle roedd y ddau fath o fudd-daliadau ar wahân. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwarchodaeth i deuluoedd a oedd ar Gredyd Cynhwysol ac yn derbyn prydau ysgol am ddim cyn 1 Ionawr, 2019; felly, mae nifer fawr o deuluoedd mewn awdurdodau lle mae Credyd Cynhwysol wedi'i weithredu yn derbyn y warchodaeth hon. Fodd bynnag, gan na ddaeth Credyd Cynhwysol i rym yn Ynys Môn tan fis Rhagfyr, 2018, mae nifer y teuluoedd sy'n elwa o'r warchodaeth hon yn llai oherwydd cyn Ionawr, 2019, roeddent o dan yr hen system. Felly, gall fod yn gamarweiniol cymharu Ynys Môn gydag awdurdodau lle mae Credyd Cynhwysol wedi bod mewn grym am beth amser oherwydd nifer y teuluoedd sy'n derbyn y warchodaeth yn yr awdurdodau hynny.

- Gofynnodd y Pwyllgor pa bryd y byddai'n derbyn yr holiadur hunanwerthuso i asesu lefel cydymffurfiaeth y Pwyllgor â chanllawiau newydd CIPFA ar rôl Pwyllgorau Archwilio.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr holiadur yn ddarn o waith y mae Grŵp Prif Archwilwyr Cymru yn gweithio arno ar hyn o bryd, ac y bydd mewn dau ran – bydd un rhan yn canolbwyntio ar sgiliau a dawn aelodau unigol o'r Pwyllgor Archwilio a bydd y rhan arall yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol yw'r Pwyllgor gyda'i gilydd yn erbyn ei gylch gorchwyl. Gan mai dogfen gan CIPFA yw hon, bydd angen creu fersiwn Gymraeg hefyd i sicrhau bod yr holiadur yn berthnasol i Ynys Môn. Unwaith mae hyn wedi'i wneud, bydd yr holiadur yn cael ei anfon ymlaen at aelodau'r Pwyllgor.

- Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg mai'r bwriad yn wreiddiol oedd cyflwyno'r Adroddiad Yswiriant Blynyddol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor, bydd yr adroddiad nawr yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf, gan fod y cyfnod o ddiwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth hyd at y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r cyfarfod hwn yn rhy fyr i'r Cwmni Yswiriant allu darparu'r wybodaeth angenrheidiol.

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL MEWN PERTHYNAS AG UNRHYW UN O'R MATERION A GODWYD**

**3 MATERION YN CODI - DILYNIANT I'R ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2017/18**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol adroddiad dilynol i Adroddiad Blynyddol 2017/18 ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Roedd yr adroddiad yn rhoi dadansoddiad pellach mewn perthynas â'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2017/18 pan gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, 2019. Dyma'r materion a godwyd ganddo –

- Y gwahaniaeth rhwng y ddau gategori o Ymosodiadau Corfforol gan Berson yn y tabl Mathau o Ddigwyddiadau ar dudalen 6 o Adroddiad Blynyddol 2017/18

Adroddodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod y system adrodd am ddamweiniau yn cynnwys dau gategori o Ymosodiad Corfforol, un yw Ymosodiad Corfforol a'r llall yw Ymosodiad Corfforol – Ymddygiad Heriol. Roedd y ffigwr o 56 digwyddiad yn 2016/17 a 103 digwyddiad yn 2017/18 yn perthyn i'r categori Ymosodiad Corfforol – Ymddygiad Heriol, ac maent yn ddigwyddiadau lle gallai materion iechyd meddwl fod yn bresennol neu lle gellid cwestiynu capasiti meddyliol, ac efallai nad oedd unrhyw fwriad i achosi niwed corfforol. Mae'r categori Ymosodiad Corfforol yn cynnwys digwyddiadau lle mae person wedi taro person arall ond nad yw capasiti meddyliol yn cael ei gwestiynu. Roedd y ffigyrau ar gyfer y categori hwn yn 37 digwyddiad yn 2016/17 a 45 digwyddiad yn 2017/18. Yn 2017/18, roedd 9 digwyddiad a gofnodwyd fel digwyddiadau bach yn rhai yn erbyn staff.

- A oedd unrhyw resymau penodol am y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau corfforol ac a yw'r cynnydd yn arwydd bod tuedd yn datblygu?

Adroddodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, wrth adolygu'r digwyddiadau canfuwyd fod 11 o safleoedd ychwanegol ar draws yr holl wasanaethau wedi adrodd am ddigwyddiadau yn 2017/18 o gymharu â 2016/17, ac ystyrir mai'r rheswm pennaf am hyn yw gwell ymwybyddiaeth o ofynion Iechyd a Diogelwch ar ôl gwneud gwaith yn 2016/2017 i godi proffil Iechyd a Diogelwch o fewn y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas ag adrodd am ddigwyddiadau o drais ac ymddygiad ymosodol. Mae'r siart Digwyddiadau Ymosodiad Corfforol yn yr adroddiad yn dangos bod nifer y digwyddiadau wedi gostwng rhwng 2013 a 2017 ond fe wnaethant gynyddu eto yn y cyfnod o 2016/17 i 2017/18. Fel mae'r siart yn dangos, mae nifer y digwyddiadau o dan y categori Ymosodiad Corfforol – Ymddygiad Heriol wastad wedi bod yn uwch nac ar gyfer y categori Ymosodiad

Corfforol ac mae'n cynnwys digwyddiadau lle nad oedd efallai fwriad i achosi niwed. Felly, mae'n bosib mai gwell ymwybyddiaeth yw'r rheswm am y cynnydd yn y ffigwr a gofnodwyd. Roedd nifer yr Ymosodiadau Corfforol ar eu hisaf yn 2015/16, sef 20, ond maent wedi cynyddu ers hynny. Mae angen monitro'r ffigwr hwn yn agosach oherwydd gallai'r digwyddiadau adlewyrchu bwriad i achosi niwed.

Dywedodd y Swyddog y bydd y ffigyrau yn Adroddiad Blynyddol 2018/19 pan gânt eu dwyn ynghyd yn darparu gwell eglurder ynghylch unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac os ydynt yn dal i gynyddu yn y categorïau hynny, efallai y bydd rhaid ymchwilio'n bellach yn enwedig os yw'r digwyddiadau a gofnodwyd yn ymwneud â gwasanaethau eraill ar wahân i Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol (lle mae nifer y digwyddiadau o Ymosodiad Corfforol – Ymddygiad Heriol wedi bod yn uwch yn hanesyddol).

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad ac wrth nodi'r angen i fonitro'r ffigyrau ar gyfer 2018/19 er mwyn cymharu â'r blynyddoedd cynt, nododd hefyd y dylid annog staff i adrodd am ymosodiadau corfforol wrth yr Heddlu.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, er y gellir annog staff i wneud hynny ac y gall y Cyngor ddod â digwyddiadau o'r fath i sylw'r Heddlu, yn y bôn mater i'r unigolyn yw penderfynu mynd ar ôl y mater ai peidio a mater i'r Heddlu yw p'un a ddylid mynd â'r mater ymhellach.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fel dilyniant i Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2017/18.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL.**

## 4 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi diweddariad ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol mewn perthynas â chyflwyno gwasanaeth, darparu sicrwydd a'r adolygiadau a gwblhawyd.

Amlygodd y Pennaeth Archwilio a Risg y prif bwyntiau fel a ganlyn –

- Cwblhawyd pedwar adroddiad archwilio yn derfynol yn ystod y cyfnod. Y meysydd dan sylw oedd y Cynllun Taliadau Uniongyrchol a gafodd farn Sicrwydd Cyfyngedig; Recriwtio a Chadw; Sipsiwn a Theithwyr (gofynion Deddf Tai 2014) a'r Swyddogaeth Hamdden – Llywodraethiant a Rheolaeth, a rhoddwyd Sicrwydd Rhesymol i'r tri yma. Ar gyfer y tri adolygiad, roedd Archwilio Mewnol wedi adnabod bod sgôp i wella rheolaethau yn y dyfodol yn y meysydd a gawsant eu harchwilio, ac mae hynny wedi ei adlewyrchu yn y cynlluniau gweithredu a gytunwyd gyda'r Rheolwyr. Roedd Archwilio Mewnol wedi codi 2 Risg/Mater Cymedrol yn yr adolygiad Recriwtio a Chadw; 2 Risg/Mater Mawr ac 1 Cymedrol yn yr adolygiad Sipsiwn a Theithwyr a 2 Risg/Mater Mawr a 9 Cymedrol yn yr adolygiad ar y Swyddogaeth Hamdden.
- Mewn perthynas â'r **Adolygiad Sicrwydd Cyfyngedig ar y Cynllun Taliadau Uniongyrchol** codwyd 5 o Risgiau/Materion Cymedrol, ac er bod yr adolygiad archwilio wedi cadarnhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth o ran gweithredu polisïau a gweithdrefnau a chywirdeb a phrydlondeb y taliadau a wnaed, fe wnaeth ganfod diffygion o ran adolygu'r cynlluniau gofal sy'n cefnogi taliadau uniongyrchol; sicrhau cadarnhad o gymeradwyaeth y Panel, rhai asesiadau risg heb eu gwneud, a'r ffaith nad oedd bob tro dystiolaeth o ymwneud y defnyddiwr gwasanaeth â phenderfyniadau ynglŷn â'i gynllun gofal a chymorth. Mae tîm prosiect ffurfiol yn rhoi sylw i'r risgiau a'r materion a godwyd; mae'r tîm yn cyfarfod yn fisol ac mae ganddo fynediad at gymorth allanol. O'r pum Risg/Mater a godwyd, mae

dau oedd i fod i gael eu gweithredu erbyn hyn wedi cael eu gweithredu, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar y tri sy'n weddill. Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad dilyn-i-fyny ym mis Medi, 2019.

- Er bod yr adolygiad Taliadau Uniongyrchol wedi codi 5 o Risgiau/Materion Cymedrol gan arwain at farn Sicrwydd Cyfyngedig, o gymharu â'r 2 o Risgiau/Materion Mawr a 9 Cymedrol ar yr adolygiad o'r Swyddogaeth Hamdden a arweiniodd at farn Sicrwydd Rhesymol, roedd yr ail adolygiad dros faes llawer mwy ac mae'r materion a godwyd yn rhai cadw tŷ yn bennaf. Mae'r Taliadau Uniongyrchol yn system llawer llai a thra bod y niferoedd sy'n gysylltiedig yn golygu bod y 5 Risg/Mater a godwyd yn rhai Cymedrol o ran eu heffaith gorfforaethol ar y Cyngor, ni allai Archwilio Mewnol ond roi Sicrwydd Cyfyngedig mewn perthynas â'r system Taliadau Uniongyrchol ei hun.
- Cwblhawyd un Adolygiad Dilynol yn derfynol yn ystod y cyfnod, yn ymwneud â Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. O ganlyniad, mae'r farn Sicrwydd Cyfyngedig gwreiddiol wedi cael ei huwchraddio i Sicrwydd Rhesymol. Mae adolygiad dilynol ar Gydymffurfio â Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a bwriedir cynnal pedwar adolygiad Dilynol pellach yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn – mae'r rhain yn ymwneud â Chasglu Incwm mewn Ysgolion Cynradd *(Adolygiad Dilynol cyntaf);* Mân Ddyledwyr *(Ail Adolygiad Dilynol);* Rheoli Systemau – Mynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau) *(Pedwerydd Adolygiad Dilynol)* a Thaliadau Uniongyrchol *(Adolygiad Dilynol cyntaf).*

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y prosiect sydd wedi canolbwyntio ar Gydymffurfio â Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu bron â dod i ben. Mae llawer iawn wedi'i fuddsoddi yn y prosiect hwn o ran datblygiad polisi a hyfforddi staff ar draws y gwasanaethau sy'n defnyddio cardiau talu ac sydd felly'n dod o dan ofynion safonau diogelwch data y diwydiant cardiau talu.

- Mae perfformiad y Rheolwyr wrth roi sylw i Faterion/Risgiau a rhoi camau gweithredu ar waith wedi sefydlogi dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae eu perfformiad wrth weithredu Risgiau/Materion Uchel, Coch ac Ambr wedi dirywio mymryn yn ddiweddar. Bydd y fersiwn newydd, wedi'i huwchraddio o'r system tracio camau gweithredu ar gael yn fuan a bydd yn haws i'w defnyddio ac yn llai o faich o ran gweinyddu'r system. Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal ymarfer i lanhau'r data hanesyddol ac adolygu ffurfwedd y system.
- Ers penodi dau Uwch Archwilydd newydd, mae gwaith ar Gynllun Gweithredol 2018/19 yn mynd rhagddo yn dda. Mae gwaith bron â dod i ben mewn pedwar maes sydd wedi eu cynnwys fel risgiau gweddilliol ambr yn y gofrestr risg gorfforaethol – mae'r rhain i'w gweld ym mharagraff 24 yr adroddiad. Mae dau ymchwiliad wedi dod i ben a chyfeirir atynt ym mharagraff 25. Mae gwaith hefyd wedi cychwyn ar Strategaeth Archwilio 2019/20 gyda phedwar archwiliad yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd – Trefniadau Parhad Busnes; Diogelu Corfforaethol, Gwydnwch TG a Gwiriad Iechyd Llywodraethiant Gwybodaeth Gorfforaethol.
- Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac fel rhan o welliant parhaus y Gwasanaeth i'w drefniadau archwilio, mae Archwilio Mewnol wedi adolygu'r diffiniadau o'i Raddfeydd Sicrwydd sydd i'w gweld yn Atodiad B yr adroddiad. Mae'r diffiniadau newydd yn adlewyrchu'n well y farn y daw'r archwilwyr iddi ar ddiwedd pob archwiliad.
- Mae Archwilio Mewnol hefyd wedi addasu'r Datganiad Polisi Rheoli Risg yn unol â'r argymhellion o'r Gwiriad Iechyd Rheoli Risg a wnaed gan Yswirwyr y Cyngor, Zurich Municipal. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, bydd y datganiad polisi yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w adolygu ym mis Gorffennaf, 2019.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaeth y pwyntiau canlynol –

• Holodd y Pwyllgor a yw'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol lle mae unigolion neu eu cynrychiolwyr yn trefnu ac yn talu am eu gofal a'u cymorth eu hunain, yn system fwy effeithlon na'r model traddodiadol lle câi gwasanaethau gofal a chymorth eu darparu'n uniongyrchol neu eu comisiynu gan y Cyngor, ac ai i'r cyfeiriad hwn y mae gwasanaethau gofal yn mynd?

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, os yw'r cleient yn cyflogi gofalwr yn uniongyrchol yna mae'n cymryd cyfrifoldebau'r cyflogwr a mater i'r cleient fel y cyflogwr yw cytuno ar delerau ac amodau gyda'r unigolyn/unigolion mae'n eu cyflogi. Mae gan y Cyngor fel cyflogwr ymrwymiadau tuag at ei weithwyr yng nghyswllt y Strwythur Tâl Cenedlaethol, Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Pholisi Salwch y Cyngor sydd oll yn ychwanegu at y costau. Felly mae'r gost i'r Cyngor o ddarparu'r gofal hwnnw yn uwch na phetai'r unigolion yn trefnu'r gofal iddyn nhw eu hunain, lle byddai'r costau yn llawer is neu'n wahanol. Mae'n orfodol i awdurdodau lleol gynnig taliadau uniongyrchol i unrhyw oedolyn, plentyn neu ofalwr sy'n gymwys am wasanaeth o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a nod y Cyngor yw cynyddu'r defnydd o daliadau uniongyrchol ond dim ond ar gyfer unigolion sydd wedi eu hasesu fel rhywun sydd â'r gallu i reoli'r taliadau neu sydd gan y gefnogaeth angenrheidiol i'w helpu i wneud hynny.

• Nododd y Pwyllgor nad oeddent wedi cael gweld y Cynlluniau Gweithredu a gytunwyd gyda'r Rheolwyr mewn perthynas â'r Adolygiadau Archwilio Mewnol ar Recriwtio a Chadw, Sipsiwn a Theithwyr a'r Swyddogaeth Hamdden. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor allu gweld y cynlluniau gweithredu, yn enwedig o ran rhoi cyd-destun i'r farn Sicrwydd Rhesymol a roddwyd i'r Swyddogaeth Hamdden, o gofio bod yr adolygiad hwnnw wedi adnabod 2 Risg/Mater Mawr a 9 Cymedrol o gymharu â'r farn Sicrwydd Cyfyngedig i'r adolygiad Taliadau Uniongyrchol er mai 5 Mater/Risg Cymedrol a ganfuwyd.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, wrth ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor er mwyn ei sicrhau fod y risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol, yn ceisio sicrhau bod y wybodaeth y mae'r Pwyllgor yn ei derbyn yn berthnasol ac yn hylaw, ac nad oes gormodedd o wybodaeth fel nad yw'r Pwyllgor yn colli golwg ar y materion allweddol. Byddai cyflwyno cynlluniau gweithredu i'r Pwyllgor ar gyfer pob adolygiad unigol gan gynnwys y rheini lle mae'r gyfradd sicrwydd yn Rhesymol neu uwch, yn golygu llawer iawn o wybodaeth i'r Pwyllgor ymdrin â hi ac efallai y byddai'n eu llethu. Fodd bynnag, ar gyfer adolygiadau Sicrwydd Cyfyngedig neu Leiaf fel yn achos y cynllun Taliadau Uniongyrchol, yna caiff y Pwyllgor yr adroddiad llawn a'r cynllun gweithredu fel bod modd iddo ystyried a oes camau priodol ac amserol ar waith i roi sylw i'r materion a godwyd.

• Nododd y Pwyllgor mai dim ond 4 o'r 10 adroddiad adolygiad archwilio mewnol ar y Cynllun Gweithredol (fel y cyflwynwyd i gyfarfod Chwefror y Pwyllgor) oedd â dyddiad targed o adrodd i gyfarfod mis Ebrill y Pwyllgor, sydd wedi eu cyflwyno mewn gwirionedd. Mae hyn yn awgrymu mai dim ond 40% o'r targed a gyflawnwyd.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod pedwar archwiliad arall bron â dod i ben ond na fu modd eu cwblhau mewn pryd i'w cyflwyno i'r cyfarfod hwn, gan fod proses i'w dilyn ar ôl cwblhau archwiliad hefyd sy'n golygu llunio'r adroddiad drafft, cynllun gweithredu ac wedyn cyflwyno'r adroddiad yn ei ffurf derfynol. Rhoddodd y Swyddog ddiweddariad byr ar statws y pedwar archwiliad. Cadarnhaodd hefyd fod archwiliad arall a oedd i fod i gael ei adrodd ym mis Ebrill, 2019 mewn perthynas ag Adfer a Dileu (Benthyciadau Car) bellach yn ddarn ymgynghoriad yn hytrach nag archwiliad.

• Holodd y Pwyllgor a oes gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol y capasiti staff y mae ei angen i gyflawni'r Cynllun Gweithredol, ac a yw'r Cynllun yn realistig ac yn un y gellir ei

wireddu gyda'r adnoddau cyfredol. Nododd y Pwyllgor, gan fod y sicrwydd a gaiff ynghylch digonolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor yn dod o'r wybodaeth y mae'n ei derbyn o waith monitro Archwilio Mewnol ar berfformiad y prosesau hynny, mae'n bwysig bod Archwilio Mewnol yn gallu darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r Pwyllgor mewn modd amserol a bod ganddo'r adnoddau angenrheidiol i wneud hynny.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg, fel sydd wedi'i nodi mewn adroddiadau blaenorol, mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi dioddef o swyddi gwag yn y gorffennol sydd wedi amharu ar allu'r Gwasanaeth i gyflawni yn y modd y byddai'n dymuno gwneud. Fodd bynnag, mae prinder adnoddau yn broblem yn y rhan fwyaf o gynghorau ac fel awdurdod llai o faint, mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn Ynys Môn yn cymharu'n ffafriol gyda sawl awdurdod arall yng Nghymru gyda thîm o bum archwilydd llawn amser, ac ym marn broffesiynol y Pennaeth Archwilio a Risg mae hynny'n rhoi'r Gwasanaeth mewn sefyllfa dda i gyflawni'r Cynllun Archwilio (gan nodi serch hynny bod un absenoldeb salwch ac un absenoldeb mamolaeth yn y tîm ar hyn o bryd). Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi llwyddo eto eleni i sicrhau gwasanaethau unigolyn o dan Gynllun Denu Talent y Cyngor lle mae hyd at 10 o bobl ifanc 16 mlwydd oed neu hŷn yn cael 12 wythnos o brofiad gwaith â thâl yn y Cyngor dros fisoedd yr haf. Dywedodd y Swyddog, tra bod yr absenoldeb salwch a mamolaeth wedi cael eu ffactora i mewn i'r Cynllun Archwilio, mae'n anodd ceisio rhagweld faint o amser y bydd rhaid i'r Gwasanaeth ei dreulio ar ymchwiliadau oherwydd gallant gymryd nifer sylweddol o ddyddiau archwilio i'w cynnal.

Nododd y Pwyllgor y cyfyngiadau sydd ar y swyddogaeth Archwilio Mewnol a all effeithio'n andwyol ar y Gwasanaeth.

- Holodd y Pwyllgor a oes diffiniad cenedlaethol safonol ar gyfer y cyfraddau sicrwydd ac os nad oes, a ddylid cyflwyno diffiniadau safonol er budd cysondeb a meincnodi.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg, er nad oes un diffiniad Cymru-gyfan ar gyfer cyfraddau sicrwydd, nid yw diffiniadau'r cynghorau yn annhebyg ac mae'r termau sylweddol, rhesymol a chyfyngedig yn rhai sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o gynghorau. Fodd bynnag, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Ynys Môn yn ceisio sicrhau bod ei raddfeydd o faterion a risgiau yn cyd-fynd ag archwaeth risg y Cyngor, felly dyna pam y defnyddir y diffiniadau yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol i ddiffinio'r materion a risgiau a godwyd.

**Penderfynwyd ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a'r pwyntiau o eglurhad a ddarparwyd gan y Swyddogion, fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn ac yn nodi cynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darpariaeth sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, a'i berfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant.**

**NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH**

## 5 ARCHWILIO ALLANOL: CYNLLUN ARCHWILIO 2019 - CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried – yr adroddiad Archwilio Allanol a oedd yn cynnwys y Cynllun Archwilio arfaethedig ar gyfer blwyddyn archwilio 2018/19. Roedd y Cynllun yn egluro'r gwaith y bwriedir ei wneud mewn perthynas â'r archwiliad ariannol a materion yn ymwneud â hynny, ac roedd hefyd yn rhoi amlinelliad o'r rhaglen archwilio perfformiad ac amserlen ar gyfer cwblhau ac adrodd ar y gwaith archwilio allanol yn yr Awdurdod.

Rhoddodd Mr Alan Hughes, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad, amlinelliad o sgôp y gwaith archwilio allanol y byddant yn ei wneud yn y Cyngor yn ystod 2019/20 ynghyd â sut y byddant yn mynd ati i gynnal yr archwiliad ariannol, a'r risgiau archwiliad ariannol a

ganfuwyd yn ystod y cam cynllunio archwiliad, gan gynnwys sut y byddent yn ymdrin â'r rhain. Rhoddodd y Swyddog ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y Rhaglen Archwilio Perfformiad gan gadarnhau y bydd Astudiaethau Llywodraeth Leol 2019/20 yn cynnwys adolygiad o'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ac effeithiolrwydd gwaith partneriaeth; effeithiau llymder ariannol ar wasanaethau dewisol, a gweithredu'n fwy masnachol mewn awdurdodau lleol.

Wrth ystyried y Cynllun Archwilio, fe wnaeth y Pwyllgor y pwyntiau canlynol –

- Er lles llywodraethiant, byddai'n ddefnyddiol petai'r Cynllun Archwilio yn egluro mai Deloitte sy'n gwneud yr archwiliad ariannol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, ac mai Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gwneud y rhaglen archwilio perfformiad. Er bod y tabl ffioedd ym mharagraff 29 yr adroddiad yn gwahaniaethu rhwng y meysydd gwaith archwilio o ran y ffioedd a godir, nid yw'n glir yn y Cynllun pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r meysydd gwaith hynny.
- Er bod y Cynllun yn nodi bod newidiadau bach i'r ffioedd ar gyfer 2019, nid oes gwahaniaeth rhwng y ffioedd archwilio ar gyfer 2019 a'r ffioedd gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn gynt yn y tabl ffioedd ym mharagraff 29.

Cadarnhaodd Mr Alan Hughes y byddai'n cymryd i ystyriaeth y sylw ynglŷn â chael eglurhad ar y rolau a'r cyfrifoldebau am gyflwyno'r elfennau archwilio perfformiad ac ariannol wrth olygu Cynllun Archwilio y flwyddyn nesaf, a chadarnhaodd hefyd y dylai'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad y flwyddyn ddiwethaf yn y tabl Ffioedd ym mharagraff 29 y Cynllun ddarllen fel £100,261 ac nid £100,216 fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad. Y ffi arfaethedig ar gyfer archwilio perfformiad yn 2018/19 yw £100,216.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2019 yn amodol ar y newid i'r Tabl Ffioedd fel yr amlinellwyd.**

**NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH**

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 2018/19

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei gymeradwyo – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2018/19. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am weithgareddau a pherfformiad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod y flwyddyn wrth iddo gyflawni ei gyfrifoldebau ac roedd yn cynnwys crynodeb o'r cynnydd ar y camau gweithredu a godwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2018/19 fel Atodiad A i'r adroddiad.

Nododd y Cadeirydd pa mor ddiolchgar ydoedd i Aelodau'r Pwyllgor am eu presenoldeb yn y cyfarfodydd a'u cyfraniad i waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a hefyd i weithwyr y Cyngor sydd wedi mynychu a chyfrannu at y cyfarfodydd, yn enwedig staff y Gwasanaethau Cyllid ac Archwilio Mewnol. Pwysleisiodd y Cadeirydd pa mor bwysig yw gwaith y Pwyllgor, sy'n arbennig o berthnasol yn y sefyllfa economaidd bresennol o ran sicrhau bod y Cyngor yn cael ei redeg yn gadarn a'i fod yn cael gwerth am arian. Mae'r Pwyllgor yn parhau'n ymroddedig i barhau i weithio gyda gweithwyr y Cyngor i gefnogi gwelliannau parhaus yng ngwaith y Cyngor yn 2019/20.

**Penderfynwyd cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2018/19 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 14 Mai, 2019.**

**NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH**

## 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2018/19

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried – Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2018/19. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am y gwaith Archwilio Mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn gorffen ar 31 Mawrth, 2019 ac yn seiliedig ar hynny roedd y Pennaeth Archwilio a Risg wedi rhoi ei barn gyffredinol ar ba mor ddigonol ac effeithiol fu fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn, a bydd hynny'n cyfrannu at Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg, ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2019, mai ei barn fel Pennaeth Archwilio a Risg Cyngor Sir Ynys Môn yw fod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Ym marn y Pennaeth Archwilio a Risg, er nad oes unrhyw feysydd o bryder mawr, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni amcanion, ac mae'r meysydd hyn yn cael eu monitro. Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon.

Dywedodd y Swyddog eu bod wedi dod i'r farn uchod drwy ystyried y gwaith a'r gweithgareddau a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn, sydd wedi'i grynhoi yn Atodiad A yr adroddiad, a'r ystyriaethau hyn yn benodol –

- Yn ystod 2018/19, gwelodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fod uwch reolwyr yn y Cyngor yn gefnogol ac yn ymatebol i'r materion a godwyd gan Archwilio Mewnol.
- Pan fo Archwilio Mewnol wedi adnabod materion/risgiau, mae'r Rheolwyr wedi eu derbyn i gyd
- Mae Rheolwyr wedi rhoi sylw i'r holl faterion/risgiau "Coch" a oedd yn weddill, sy'n cadarnhau bod Rheolwyr yn ymatebol i waith Archwilio Mewnol
- Ni chodwyd unrhyw faterion/risgiau "Coch" yn ystod y flwyddyn
- Nid oes unrhyw faterion lle mae eu heffaith neu eu risg yn arbennig o uchel fel bod angen eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

O ran perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, mae'r Gwasanaeth wedi perfformio'n dda yn erbyn ei dargedau yn ystod y flwyddyn, gyda 4 allan o 7 dangosydd yn cyrraedd neu'n rhagori ar eu targedau. Yn dilyn asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ym mis Mawrth 2017, cafwyd sicrwydd fod y Gwasanaeth yn "cydymffurfio'n gyffredinol" â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, sef y prif asesiad sydd ar gael i'r asesydd. Er bod y Tîm Archwilio Mewnol mewn sefyllfa dda i gyflawni ei Strategaeth ar gyfer 2019/20 ar ôl ennill profiad wrth weithredu'r fethodoleg archwilio newydd; cael dau aelod o staff newydd; meddalwedd rheoli risg newydd ac uwchraddio'r meddalwedd tracio camau gweithredu, mae yna dal risgiau wrth symud ymlaen, yn arbennig pwysau ar adnoddau oherwydd absenoldeb sydd wedi effeithio ar gynhyrchedd cyffredinol y Gwasanaeth yn 2018/19.

Wrth ystyried yr adroddiad a nodi bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn fodlon ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn y Cyngor, cododd y Pwyllgor y mater o effeithiolrwydd y Pwyllgor ei hun a p'un a ellid ei ystyried yn bwyllgor sy'n ddigon rhagweithiol yn ei arferion i sicrhau trosolwg effeithiol o'r holl feysydd y mae ganddo gyfrifoldeb amdanynt. Mynegwyd un farn fod arddull y Pwyllgor yn rhy adweithiol am mai ymateb i adroddiadau a chanfyddiadau Archwilio Mewnol mae'n ei wneud yn bennaf, ac y dylai fod yn edrych ar ffyrdd y gall ychwanegu gwerth a mewnwelediad i'r meysydd hynny.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Cyngor yn darparu asesiad o berfformiad y Pwyllgor yn erbyn ei Gylch Gorchwyl yn flynyddol. Dywedodd y Swyddog, gydag ychwanegiad dogfennau llywodraethu ar gyfer meysydd penodol e.e. gweithgaredd yswiriant, sydd nawr wedi'i

ymgorffori yn Rhaglen Waith y Pwyllgor, nad yw'r Pwyllgor yn rhy bell o gyflawni'r disgwyliadau ynddo.

Awgrymodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y bydd yr holiadur hunan-asesu a gafodd ei grybwyll cynt yn gymorth i adnabod cryfderau a gwendidau, gan felly roi'r sail i raglen o ddatblygiad pellach fel bo'n briodol. Bydd gofyn i aelodau'r Pwyllgor gwblhau'r holiadur hwn a bydd yn ymdrin â sgiliau a chymwyseddau'r aelodau, yn unigol a gyda'i gilydd fel pwyllgor.

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2018/19 a nodi bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn fodlon â pha mor ddigonol ac effeithiol yw trefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol, yn amodol ar gyflwyno a/neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd.**

**NI CHYNIGWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU PELLACH**

## 8 BLAEN RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ac **fe'i derbyniwyd a'i nodi heb unrhyw addasiad.**

**Cynghorydd Peter Rogers**
**Cadeirydd**